
Adroddiad Blynyddol

2017 — 2018

Y Bwrdd Taliadau

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010), a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

Aelodau'r Bwrdd

- Y Fonesig Dawn Primarolo DBE PC (Cadeirydd)
- Ronnie Alexander
- Trevor Reaney
- Mike Redhouse
- Y Fonesig Jane Roberts

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

- Lleu Williams, Clerc
- Sian Giddins, Dirprwy Glerc

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.cynulliad.cymru. Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar ffurfiau hygyrch yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain neu gopïau caled gan:

Clerc y Bwrdd Taliadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@Cynulliad.Cymru**

Adroddiad Blynyddol

2017 — 2018

Cynnwys

Cyflwyniad.....	1
Y Bwrdd Taliadau.....	2
Gwaith y Bwrdd yn 2017-18	6
Rhaglen Waith 2018-19	12
Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd.....	14
Atodiad B Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd – 2017-18	17
Atodiad C: Prosiectau'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu 2017-18..	19



Cyflwyniad

Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod yr Aelodau'n cael yr adnoddau a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau Seneddol yn effeithiol wrth ddangos gwerth da am arian ar gyfer pwrs y wlad. I'r perwyl hwn, mae'r Bwrdd wedi cyflwyno rhagor o hyblygrwydd o ran sut y gall Aelodau ddefnyddio'r lwfansau sydd ar gael iddynt yn y Penderfyniad er mwyn diwallu eu hanghenion unigol. Bu'r adborth cychwynol gan Aelodau a staff cymorth yn gadarnhaol, a bydd y Bwrdd yn adolygu effaith y newidiadau'n ffurfiol maes o law.

Er bod penderfyniadau'r Bwrdd yn annibynnol a'r Bwrdd sydd i'w gwneud, mae'n cyfarfod yn rheolaidd â'r Llywydd, yr Aelodau a'r staff cymorth i esbonio sail resymegol ei gynigion a chael adborth gan y rhai y mae ei benderfyniadau'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Dros y deuddeng mis diwethaf, mae'r Bwrdd wedi achub ar gyfleoedd ymgysylltu â'r Aelodau a'r staff cymorth i ddeall yn well y ffordd y mae'r Penderfyniad yn effeithio ar y ffordd y caiff y swyddfeydd eu rheoli o ddydd i ddydd. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau â swyddfeydd, cyfweiliadau wyneb yn wyneb, sesiynau galw heibio ac arolygon ar-lein i sicrhau bod lleisiau cynifer o unigolion â phosibl yn cael eu clywed. Mae'r adborth o gyfleoedd o'r fath wedi bod yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn awyddus i adeiladu ymhellach ar y cyfleoedd hyn a bydd yn gweithio gyda'r Grwpiau Cynrychioliadol i sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r cyfleoedd ymgysylltu ar bob achlysur.

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad o gymorth staffio i'r Aelodau sy'n ceisio sicrhau y caiff yr Aelodau'r lefel briodol o gymorth i wneud eu gwaith yn effeithiol.

Yn y dyfodol, prif ffocws gwaith y Bwrdd fydd datblygu Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad sy'n ystyried y gallai fod yn Gynulliad gwahanol iawn i'r Pumed Cynulliad. Bydd y gwaith hwn yn dechrau yn ystod hydref 2018 er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei ymrwymiad i gyhoeddi'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad flwyddyn cyn yr etholiad cyffredinol yng Nghymru yn 2021. Wrth ddatblygu'r Penderfyniad, bydd y Bwrdd yn gwneud y canlynol:

- monitro effaith trosglwyddo pwerau'n ddiweddar o ganlyniad i Ddeddf Cymru 2017 ac effaith anhysbys Brexit ar y Cynulliad a'i Aelodau;
- ystyried argymhellion yr adroddiad 'Dadansoddi Amrywiaeth' a gomisiynwyd gan y Bwrdd;
- defnyddio'r holl adborth a gafwyd hyd yn hyn, yn ogystal ag unrhyw dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, er mwyn sicrhau bod y Penderfyniad yn parhau i fod yn addas at y diben.

Bydd y Bwrdd yn parhau i sicrhau y caiff yr Aelodau'r cymorth ariannol i'w galluogi i wynebu'r heriau y mae Cynulliad sy'n datblygu'n eu cyflwyno.

Y Bwrdd Taliadau

Mae'r bennod hon yn disgrifio swyddogaethau'r Bwrdd, ei gylch gwaith a'i ffyrdd o weithio.

1.1 Sefydlu a Phenodi

1.1.1 **Bwrdd Taliadau** Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu taliadau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gan **Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010** (y Mesur), a dderbyniodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

1.1.2 Cafodd y Bwrdd hwn ei benodi gan weithdrefn dryloyw o benodiadau cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod haf 2015. Mae bywgraffiadau pob un o aelodau'r Bwrdd wedi'u cynnwys yn Atodiad A. Mae aelodau'r Bwrdd Taliadau wedi'u penodi am gyfnod penodol o bum mlynedd, ac ni chaniateir iddynt gael eu penodi am fwy na dau dymor.

1.1.3 Cymeradwyodd Comisiwn y Cynulliad y penodiadau'n ffurfiol aelodau newydd y Bwrdd ar 21 Medi 2015, a chynhaliodd y Bwrdd ei gyfarfod cyntaf ar 17 a 18 Medi 2015.

1.1.4 Ar 12 Mehefin 2017, cymeradwyodd Comisiwn y Cynulliad benodiad Ronnie Alexander i'r Bwrdd yn lle Roger Williams, a ymddiswyddodd ym mis Mai 2016. Cymerodd Ronnie ei le ar y Bwrdd ar 10 Gorffennaf 2017.

1.2 Swyddogaethau ac Amcanion

1.2.1 Swyddogaethau'r Bwrdd yw penderfynu ar lefel o daliadau a system o gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad (Aelodau) sy'n eu galluogi i gyflawni eu swyddi fel y nodir yn adran 3 o'r Mesur.

1.2.2 Mae'r Mesur yn nodi tri amcan allweddol y mae'n rhaid i'r Bwrdd eu cyflawni wrth wneud **Penderfyniad**, sef:

- darparu lefel o dâl i Aelodau sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y maent yn ymgymryd â hwy, ac nad yw'n rhwystro unigolion, am resymau ariannol, rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad;
- darparu adnoddau digonol i Aelodau i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau;
- sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

- 1.2.3 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae adran 3 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r ffordd y gweithredir ei benderfyniadau a'i effeithiolrwydd yn barhaus, gan ystyried yn benodol y profiad y mae'r Bwrdd yn ei feithrin wrth roi ei Benderfyniadau ar waith, unrhyw newidiadau i swyddogaethau Aelodau'r Cynulliad, ac unrhyw amgylchiadau eraill sy'n berthnasol.
- 1.2.4 Er ei fod yn annibynnol ar y Cynulliad, ac nad yw'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth Comisiwn y Cynulliad, mae adran 2 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd, wrth arfer ei swyddogaethau, i ymgynghori â'r rhai y mae ei benderfyniadau yn debygol o effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys Aelodau, staff a gyflogir gan Aelodau neu gan grwpiau o Aelodau, undebau llafur perthnasol ac unrhyw bersonau eraill y mae'r Bwrdd o'r farn eu bod yn briodol.
- 1.2.5 Mae adran 2 o'r Mesur yn caniatáu i'r Bwrdd gyfarfod yn breifat os yw o'r farn bod hynny'n briodol, ond mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddo weithredu mewn modd agored a thryloyw, a chyhoeddi ar wefan y Cynulliad wybodaeth am ei weithgareddau ar gyfer y cyhoedd. Yn ogystal, mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd osod gerbron y Cynulliad adroddiad blynyddol am ei weithgareddau, gan gynnwys yr adnoddau a ddefnyddir ganddo, yn ystod pob blwyddyn ariannol.
- 1.2.6 Mae costau'r Bwrdd a'r treuliau a gafodd eu hawlio gan yr aelodau wedi'u cyhoeddi yn Atodiad B. Mae **agenda a chofnodion** pob un o gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd ar gael ar dudalennau'r Bwrdd ar wefan y Cynulliad.

1.3 Egwyddorion

- 1.3.1 Mae cyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir wedi bod yn sail i waith y Bwrdd hyd yn hyn:
- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith ei Aelodau;
 - rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
 - rhaid i'r system cymorth ariannol i Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.
- 1.3.2 Yn ystod 2016, datblygodd y Bwrdd gyfres o egwyddorion ac amcanion llywodraethu newydd ac yn dilyn hynny cyhoeddodd ei **strategaeth** ar gyfer cyflawni ei waith drwy gydol y Pumed Cynulliad. Adolygodd y Bwrdd y cynnydd a wnaed yn erbyn ei amcanion strategol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2018. Ceir crynodeb o'r drafodaeth yn adran 1.15.

1.4 Methodoleg

- 1.4.1 Mae'r hyn a amlinellir yn y Penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan yr Aelodau, eu staff, ac unigolion, sefydliadau a ffynonellau perthnasol eraill ac maent yn deillio o adolygiad tryloyw a chyfranogol o'r system cymorth ariannol a thaliadau. Mae'r dystiolaeth a gafodd y Bwrdd wedi ei alluogi i gael syniad clir o ddibenion strategol y Cynulliad a'r ffordd y mae'r Aelodau yn cyflawni'r dibenion hynny. Mae'r Bwrdd wedi rhoi system daliadau ar waith sy'n targedu adnoddau er mwyn cefnogi'r dibenion hyn a phob agwedd ar rôl Aelod. Yn unol â'i gylch gwaith, mae'r Bwrdd yn ymateb i adborth fel y bo'r angen, drwy ystyried gwelliannau i'r Penderfyniad er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas i'r diben.
- 1.4.2 Mae'r Bwrdd yn cael cymorth clerico ac ymchwil, cyngor cyfreithiol a chynghor arall, a chymorth gweinyddol gan staff Comisiwn y Cynulliad (yn unol ag adran 9 o'r Mesur). Darperir y cymorth hwn fel rhan o ddyletswyddau cyffredinol staff y Comisiwn, ac nid yw felly'n arwain at unrhyw gostau ychwanegol i'r Bwrdd Taliadau.
- 1.4.3 Roedd rhan gynnar o waith y Bwrdd yn rhoi cyfle i aelodau'r Bwrdd ddysgu rhagor am eu swyddogaeth, sut mae'r Cynulliad yn gweithio a'r heriau cyfansoddiadol sy'n wynebu'r Bwrdd a'r Cynulliad yn y dyfodol. Roedd aelodau unigol y Bwrdd yn defnyddio'r profiad hwn fel sail ar gyfer penderfyniadau'r Bwrdd drwy gydol y flwyddyn gyntaf a phennu **strategaeth** ar gyfer ei waith yn y dyfodol.
- 1.4.4 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau adnoddau ar gyfer anghenion penodol yr Aelodau ac i ymateb i ofynion y Cynulliad wrth iddo esblygu. Mae'n bwysig bod y Bwrdd yn targedu adnoddau i helpu Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau craidd; craffu ar bolisiâu a chyllid; dal Llywodraeth Cymru i gyfrif; deddfu; a chynrychioli eu hetholwyr.
- 1.4.5 Nid yw hyn yn golygu na fydd y Bwrdd yn dymuno ystyried sut y gall ei swyddogaethau gyfrannu'n ehangach at ddatblygu'r Cynulliad yn strategol wrth i'r sefydliad dyfu a datblygu ac wrth i'w ofynion newid dros gyfnod.
- 1.4.6 Lle bydd y Bwrdd yn ei gweld yn briodol i ni gyfrannu at faterion sydd â chanlyniadau ehangach, megis ceisio dileu'r rhwystrau i'r rhai sy'n ystyried sefyll fel ymgeiswyr, bydd y Bwrdd yn gwneud hynny, gan gadw mewn cof ei gylch gwaith deddfwriaethol.

1.5 Ymgynghori a chasglu tystiolaeth

- 1.5.1 Drwy gydol ei waith, mae'r Bwrdd wedi mynd ati i geisio cael tystiolaeth fel sail ar gyfer ei benderfyniadau drwy wneud gwaith ymgynghori cyson gydag amrywiaeth o randdeiliaid.
- 1.5.2 Bydd y Bwrdd yn parhau â'r dull cyfranogol hwn ac yn ei gryfhau er mwyn sicrhau bod ei benderfyniadau yn parhau i fod yn addas at y diben.
- 1.5.3 Mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi cyfraniad y Grŵp Cynrychioliadol Aelodau'r Cynulliad a'r Grŵp Cynrychioliadol staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Profodd y Bwrdd ei gylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad i gymorth staffio ar gyfer Aelodau gyda'r ddau grŵp i sicrhau y byddai'r adolygiad yn mynd i'r afael â phryderon y ddau grŵp. Bydd y Bwrdd yn parhau i ymgysylltu â'r grwpiau hyn er mwyn hyrwyddo ei benderfyniadau ac i ystyried materion a phryderon sy'n effeithio ar Aelodau a'u staff.

Gwaith y Bwrdd yn 2017-18

Mae'r bennod hon yn egluro'r newidiadau y mae'r Bwrdd wedi'u gwneud i'r Penderfyniad eleni yn dilyn yr adborth a'r dystiolaeth a gafwyd gan yr Aelodau.

1.6 Adolygu Penderfyniadau

- 1.6.1 Mae gofyn i'r Bwrdd adolygu'r Penderfyniad yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i roi i'r Aelodau yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau.
- 1.6.2 Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Bwrdd benderfyniadau mewn nifer o feysydd, a restrir isod. Lle'r oedd angen, newidiwyd y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad er mwyn creu pecyn o gymorth ariannol i'r Aelodau a fyddai'n addas ar gyfer sefydliad â mwy o bwerau deddfwriaethol a phwerau ym maes threthiant.

1.7 Newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2018-19: Cyflogau a buddion staff cymorth Aelodau'r Cynulliad

- 1.7.1 Y llynedd, defnyddiodd y Bwrdd y ffigurau diweddaraf a oedd ar gael ar gyfer enillion canolrifol blynyddol staff amser llawn yng Nghymru (fel y'u mesurir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)) i uwchraddio cyflogau staff cymorth. Cafodd ffigurau dros dro ASHE ar gyfer 2017 eu rhyddhau ym mis Hydref 2017 ar 2.3 y cant a chytunodd y Bwrdd mai dyma'r mynegai mwyaf addas ar gyfer pennu cynnydd cyflog priodol ar gyfer 2018-19.

Penderfyniad

Cynyddodd cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ar gyfer 2018-19 2.3 y cant yn unol â ffigurau 2017 ar gyfer enillion canolrif ASHE yng Nghymru.

- 1.7.2 Cytunodd y Bwrdd y dylid cynyddu cyfanswm y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol, sef £929,110, 2.3 y cant yn unol â'r cynnydd arfaethedig yn y dyfarniad cyflog i staff cymorth. Y lwfans newydd felly yw £950,480.

Penderfyniad

Cynyddu cyfanswm y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol 2.3 y cant, yn unol â'r cynnydd mewn cyflogau staff cymorth.

- 1.7.3 Mewn ymateb i natur newidiol gwleidyddiaeth ddatganoledig a'r gofynion ychwanegol a roddwyd ar Aelodau, y mae'r ddau beth yn effeithio'n uniongyrchol ar rôl y staff cymorth, cytunodd y Bwrdd i adolygu cymorth staffio i Aelodau. Ceir rhagor o fanylion am yr adolygiad yn adran 1.14.

1.8 Newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2018-19: Costau Swyddfa

- 1.8.1 Trafododd y Bwrdd y Lwfans Costau Swyddfa ac a yw'n parhau i fod yn briodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Ystyriodd y Bwrdd nifer o ffactorau, fel chwyddiant a fesurwyd gan fynegai pris defnyddwyr (CPI); gwariant Aelodau ar gostau swyddfa; costau rhent swyddfa ledled Cymru; y galwadau cost ychwanegol y disgwylir i Aelodau eu hariannu o'r lwfans, fel meddalwedd gweithiwr achos; a darpariaethau estynedig y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Cytunodd y Bwrdd i gynyddu'r lwfans yn unol â CPI o 3 y cant, gyda 2 y cant arall i ariannu'r galwadau cost ychwanegol ar y lwfans.

Penderfyniad

Cynyddu'r lwfans costau swyddfa 5 y cant ar gyfer 2018-19 yn unol â CPI a mynd i'r afael â'r galwadau cost ychwanegol ar y lwfans.

- 1.8.2 Nododd y Bwrdd y pryderon a nodwyd ynghylch y pwysau tymor hwy ar y Lwfans hwn, yn ogystal â chostau uwch y farchnad rhent yn rhai rhannau o'r wlad, a chytunodd i edrych ar y materion hyn wrth ddatblygu ei Benderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.
- 1.8.3 Cytunodd y Bwrdd hefyd i gynnig lwfans heb derfyn uchaf a fydd wedi'i gyfyngu i'r meini prawf¹ a ddefnyddir ar hyn o bryd i ganiatáu i'r Aelodau weithredu argymhellion diogelwch.

¹ Pennir bod yr adolygiad diogelwch a wneir gan staff diogelwch hyfforddedig ac argymhellion yn angenrheidiol (wedi'i gategori fel rhaid a dylid at ddibenion yr adroddiad) a chafwyd dau ddyfynbris neu fwy ar gyfer yr holl waith.

1.9 Gwariant ar lety preswyl ar gyfer 2018-19

- 1.9.1 Wrth benderfynu p'un a yw'r Gwariant ar Lety Preswyl yn parhau i fod yn addas at y diben ar gyfer 2018-19, trafododd y Bwrdd nifer o ffactorau gan gynnwys gwariant Aelodau ar y lwfans, prisiau rhent a'r arfer mewn deddfwrfeydd eraill. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer 2018-19 yn aros ar y cyfraddau y darperir ar eu cyfer yn y Penderfyniad ar gyfer 2017-18.

Penderfyniad

Cynnal y Lwfansau Gwariant ar Lety Preswyl ar eu cyfraddau cyfredol.

- 1.9.2 Nododd y Bwrdd y materion a godwyd ynghylch y mynegai a ddefnyddir ar gyfer uwchraddio'r lwfans, yn ogystal â'r modd y diffinnir ffiniau'r lwfans. Bydd y Bwrdd yn trafod y materion hyn ymhellach fel rhan o'i waith ar gyfer creu Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.

1.10 Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu

- 1.10.1 Gall Aelodau hawlio hyd at £2,500 y flwyddyn i gomisiynu darnau penodol o waith ymchwil o ffynonellau allanol ac i ganiatáu i Aelodau ymgysylltu â'u hetholwyr. Fodd bynnag, ni cheir ei defnyddio ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth y pleidiau. Roedd yr adborth gan Aelodau sydd wedi defnyddio'r Gronfa yn y gorffennol yn gadarnhaol a chytunodd y Bwrdd i fonitro faint oedd yn ei defnyddio ac ystyried opsiynau ar gyfer ei gwella.
- 1.10.2 Yn ystod 2017-18, defnyddiodd 29 o Aelodau y Gronfa. Gwariwyd cyfanswm o £69,333.13 ar waith, a nodir y manylion yn Atodiad C.

1.11 Ystyried taliadau eithriadol

- 1.11.1 Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gallai amgylchiadau eithriadol effeithio ar Aelodau unigol o bryd i'w gilydd, gan effeithio ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd y rhain yn aml yn gyfrinachol eu natur, a gallant godi ar fyr rybudd. Mae dyletswydd ar y Bwrdd i gefnogi'r Aelodau ym mhob agwedd ar eu rôl ac, ym marn y Bwrdd, os caiff wybod am amgylchiadau o'r fath, dylai wneud penderfyniad a oes achos o blaid darparu cymorth ariannol eithriadol. Yn amlwg, mae angen ymdrin â cheisiadau o'r fath mewn ffordd sensitif, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith ar gyfer adrodd ar drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd. Lle mae costau yn barhaus, bydd y Bwrdd yn adolygu pob achos yn rheolaidd i sicrhau bod yr amgylchiadau personol yn parhau i fod yr un fath ac felly y bydd y penderfyniad yn parhau i fod yn ddilys ac yn cynnig gwerth am arian i'r trethdalwr.

1.11.2 Yn ystod 2017-18, cymeradwyodd y Bwrdd un cais, y talwyd cyfanswm o £110.27 ar ei gyfer. Yn flynyddol, bydd y Bwrdd yn adolygu yr holl dreuliau eithriadol y cytunodd arnynt.

1.12 Ffactorau sy'n cymell pobl i sefyll i gael eu hethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r ffactorau sy'n eu rhwystro rhag gwneud hynny

1.12.1 Cytunodd y Bwrdd i gomisiynu gwaith ymchwil i ddod i ddeall yn well pa ffactorau a allai rwystro unigolion rhag sefyll i gael eu hethol i'r Cynulliad, a pha agweddau o fewn cylch gwaith y Bwrdd sy'n denu pobl i'r swydd. Mae hyn yn rhan o'r gwaith sylfaenol i lywio ei gynigion i ddarparu cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad yn ystod y Chweched Cynulliad (Mai 2021-26).

1.12.2 Gwahoddodd y Bwrdd dendrau ar gyfer y gwaith ymchwil ac, yn dilyn proses asesu gadarn, penodwyd Prifysgol Caerdydd (Canolfan Llywodraethiant Cymru) ym mis Ebrill 2017. Cyhoeddwyd yr adroddiad, a'r adroddiad cryno ategol, ar 5 Gorffennaf 2018. Cytunodd y Bwrdd i drafod y materion a godwyd yn yr adroddiad yn ystod gweddill ei gyfnod.

1.13 Egwyddorion sylfaenol y Penderfyniad a'i effeithiolrwydd

1.13.1 Yn unol ag ymrwymiad y Bwrdd i adolygu'n rheolaidd effaith ei benderfyniadau, cynhaliodd y Bwrdd adolygiad o'r darpariaethau presennol a gafodd eu cynnwys yn y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad.

1.13.2 Anfonodd y Bwrdd arolwg² at Aelodau a staff cymorth ar effeithiolrwydd y Penderfyniad presennol a'r egwyddorion sy'n sil i ddarparu cymorth ariannol. Prif bwrpas yr adolygiad oedd penderfynu p'un a yw'r Penderfyniad yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng rhagnodi a hyblygrwydd, gan ymrymuso Aelodau i ddefnyddio arian yn ddoeth, gyda'r lefel gywir o gadw cydbwysedd.

1.13.3 Y gyfradd ymateb i'r arolwg oedd yr uchaf ymysg unrhyw arolwg a gyhoeddwyd gan y Bwrdd, gyda 24 o Aelodau a 67 o staff cymorth yn ymateb. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd yn ymwybodol nad yw'r canlyniadau yn cynrychioli'r holl Aelodau a staff cymorth.

² Cynhaliwyd yr arolwg rhwng mis Mai a Mehefin 2017.

- 1.13.4 Trafododd y Bwrdd ganlyniadau'r arolwg yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2017 a chytunodd i ddefnyddio'r canlyniadau fel sail ar gyfer unrhyw waith perthnasol yn y dyfodol. Ceir crynodeb o'r canlyniadau isod.
- 1.13.5 Roedd Aelodau a staff cymorth yn holi p'un a ellid cynyddu hyblygrwydd y lwfansau pe byddai mesurau diogelu ychwanegol yn cael eu cyflwyno. Byddai hyn yn caniatáu i bob swyddfa ddefnyddio'r lwfansau i ddiwallu eu hanghenion, er enghraifft, i gyflogi staff ychwanegol heb gynyddu'r lwfans cyffredinol a ddarparwyd i Aelodau. Codwyd y materion eto yn adolygiad y Bwrdd o gymorth staffio i Aelodau. Yn sgil yr adborth a gafwyd, **cynigiodd y Bwrdd nifer o newidiadau i'r Penderfyniad** a fyddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i Aelodau o ran sut i ddefnyddio eu lwfansau. Cyhoeddodd y Bwrdd ddau ymgynghoriad a oedd yn cynnwys cyniogion i gynyddu hyblygrwydd y lwfansau o fewn y Penderfyniad fel rhan o'i **adolygiad o gymorth staffio i Aelodau**.
- 1.13.6 Codwyd pryderon hefyd ynghylch y lwfans costau swyddfa, gyda rhai yn nodi nad yw lwfans unffurf i'r holl Aelodau yn cynrychioli'r cyfraddau rhent amrywiol ledled Cymru. Roedd eraill yn cwestiynu a ddylid adolygu'r ffiniau presennol sy'n pennu'r Gwariant ar Lety Dros Dro gan nad ydynt bob amser yn cyfateb ag amser teithio. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i edrych ar y materion hyn eto ar ôl i Gomisiwn y Cynulliad gyhoeddi ei benderfyniad ar p'un a fydd yn cyflwyno deddfwriaeth ar ddiwygio etholiadol gan y gallai cwmpas unrhyw ddeddfwriaeth effeithio ar Benderfyniad y Bwrdd ar y meysydd hyn.

1.14 Adolygiad o gefnogaeth staffio i'r Aelodau

- 1.14.1 Yn ei strategaeth ar gyfer 2016-2021, ymrwymodd y Bwrdd i adolygu cyflog a strwythur gyrfaol staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a sut i gynnig y lefel briodol o gymorth i Aelodau er mwyn gwneud eu gwaith yn effeithiol. Lansiodd y Bwrdd yr **adolygiad** ym mis Hydref 2017.
- 1.14.2 Cytunodd y Bwrdd i adolygu tystiolaeth bresennol a thystiolaeth newydd sy'n ymwneud â'r lwfansau staffio a ddarperir i'r Aelodau, er mwyn sicrhau bod y cymorth ariannol sydd ar gael yn ategu diben strategol y Cynulliad ac yn hwyluso gwaith ei Aelodau yn ogystal â sicrhau bod y system o gymorth ariannol i'r Aelodau yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn cynrychioli gwerth i'r trethdalwr. Bydd yr adolygiad yn ystyried:
- pa mor ddigonol yw lefel y cymorth a roddir i'r Aelodau;
 - pa mor hyblyg ac argymhellol yw'r system cymorth bresennol i'r Aelodau;
 - pa mor addas yw telerau ac amodau presennol staff cymorth.

- 1.14.3 Cynhaliodd y Bwrdd gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ag Aelodau a staff cymorth, gan gynnwys:
- ymweld â nifer o swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol Aelodau i gwrdd â'r staff cymorth sydd wedi'u lleoli yn y swyddfeydd hyn;
 - cyfweiliadau un-i-un gyda sampl gynrychioliadol o Aelodau a staff cymorth ledled Cymru;
 - digwyddiad "pop-up" er mwyn i staff cymorth gyfarfod â'r Bwrdd;
 - arolwg ar-lein a anfonwyd i Aelodau a staff cymorth.

1.14.4 Trafododd y Bwrdd yr adborth gan Aelodau a staff cymorth yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu ochr yn ochr â'r cymorth a ddarparwyd i Aelodau etholedig yn neddfwrfeydd eraill y DU a'r telerau ac amodau i staff Comisiwn y Cynulliad a rolau cyfatebol eraill.

1.14.5 Mae'r Bwrdd eisoes wedi cwblhau un **ymgyngoriad** yn ymwneud â hyblygrwydd y lwfansau fel rhan o'r adolygiad. Yn sgil yr ymatebion a ddaeth i law, cytunodd y Bwrdd i weithredu ei holl gynigion, a fydd yn cael eu cyflwyno fesul cam rhwng 1 Hydref 2018 ac 1 Ebrill 2019 er mwyn rhoi digon o amser i Aelodau baratoi ar gyfer y newidiadau. Mae manylion llawn am weithredu'r cynigion i'w gweld yn **llythyr y Bwrdd at Aelodau ar 6 Mehefin**. Cyhoeddodd y Bwrdd **ymgyngoriad arall ar hyblygrwydd lwfansau o ran cymorth i Bleidiau Gwleidyddol** ym mis Mehefin. Bydd y Bwrdd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ym mis Hydref.

1.14.6 Bydd y Bwrdd yn ystyried y materion eraill a godwyd fel rhan o'r adolygiad maes o law.

1.15 Adolygiad o strategaeth y Bwrdd: Flwyddyn yn ddiweddarach

1.15.1 Yn ei adolygiad o'r cynnydd a wnaed hyd yma ar ei amcanion strategol, trafododd y Bwrdd y gwaith y mae wedi'i wneud eisoes, y gwaith y mae wedi'i ymrwymo i'w wneud a'i flaenraglen waith.

1.15.2 Mae'r Bwrdd wedi cymryd nifer o ddulliau gwahanol *i ymgysylltu'n effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid i sicrhau ei fod yn deall eu hanghenion a'u barn*. Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriadau, arolygon, ymweliadau â swyddfeydd, cyfweiliadau a sesiynau "pop-up". Mae'r adborth cyffredinol ar y cyfleoedd ymgysylltu hyn wedi bod yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law yn parhau i fod yn isel er gwaetha'r ymdrechion. Wrth symud ymlaen, bydd y Bwrdd yn gweithio gyda rhanddeiliaid,

gan gynnwys y Grwpiau Cynrychioliadol, i sicrhau bod ei ddull yn parhau i fod yn briodol.

- 1.15.3 *Er mwyn sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad yn parhau i fod yn addas at y diben mae'r Bwrdd wedi adolygu'r darpariaethau yn ystod ei adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad, adolygiad o effeithiolrwydd y Penderfyniad a'r adolygiad i gymorth staffio ar gyfer Aelodau. Unwaith eto, mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod y gyfradd ymateb i'r ymgynghoriad yn isel a bydd yn edrych ar ffyrdd i annog mwy i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol.*
- 1.15.4 Fel y nodwyd eisoes, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo ei hun i *lunio Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad i roi gwybod i ymgeiswyr posibl, flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru, sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau cyfansoddiadol y Cynulliad sy'n esblygu a'r cyd-destun ehangach yng Nghymru.* I'r perwyl hwn, mae'r Bwrdd wedi bod yn monitro datblygiad gwaith Comisiwn y Cynulliad ar ddiwygio etholiadol a bydd yn sicrhau bod ei Benderfyniad yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r system etholiadol pe byddai'r newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan y Cynulliad. Bydd y Bwrdd hefyd yn sicrhau yr ystyrir ei ganfyddiadau o'r holl waith a wnaed yn ystod ei dymor yn y swyddfa wrth ddatblygu'r Penderfyniad.
- 1.15.5 Drwy adolygu'r Penderfyniad a'i berfformiad ei hun yn rheolaidd, mae'r Bwrdd wedi *sicrhau bod y system cymorth ariannol ar gyfer Aelodau yn cynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr a bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol ac wedi datblygu ei broses ei hun i sicrhau bod yr holl geisiadau i'r Bwrdd yn cael eu hystyried yn gyfartal.*

Rhaglen Waith 2018-19

- 1.15.6 Yn dilyn adolygiad i'r rhwystrau a'r cymhellion dros sefyll ar gyfer etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mae'n bosibl y bydd y Bwrdd yn penderfynu gwneud gwaith pellach ar gylich yr adroddiad wrth ddatblygu Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.
- 1.15.7 Bydd y Bwrdd yn parhau i edrych ar y materion a nodwyd yn ystod y cam cychwynnol o gasglu tystiolaeth yn ei adolygiad o gymorth staffio i Aelodau. Bydd yr adolygiad yn helpu i sicrhau bod gan Aelodau lefel briodol o gymorth i wneud eu swydd yn effeithiol. Bydd rhaid cael ymgynghoriad os bydd y Bwrdd o'r farn bod angen newidiadau pellach i'r Penderfyniad er mwyn i'r afael â'r materion.
- 1.15.8 Bydd y Bwrdd hefyd yn parhau â'i amcan hirdymor i adolygu'r egwyddorion sy'n sail i ddarparu cymorth ariannol, yn enwedig pan fydd y dull presennol naill ai'n rhy rhagnodol neu'n rhy hyblyg.

1.15.9 Gan fod y Bwrdd wedi ymrwymo i gyhoeddi ei Benderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad flwyddyn cyn yr etholiad i sicrhau bod yr holl ymgeiswyr posibl yn gwybod am y pecyn o gymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau o gyllideb y Bwrdd, bydd yn dechrau cynnal adolygiad llawn yn ystod hydref 2018. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol iawn y gallai Comisiwn y Cynulliad benderfynu cyflwyno deddfwriaeth a allai effeithio ar y Penderfyniad. Bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro'r datblygiadau hyn a bydd yn sicrhau ei fod yn ystyried unrhyw gynigion o'r fath wrth ddatblygu ei Benderfyniad.

Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd



Y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd)



Mae'r Fonesig Dawn Primarolo, DBE, yn wleidydd Plaid Lafur Prydain a oedd yn Aelod Seneddol dros Dde Bryste rhwng 1987 a 2015, pan roddodd y gorau i'w sedd. Bu'n Weinidog Gwladol dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd o fis Mehefin 2009 tan fis Mai 2010, ac yn Ddirprwy Lefarydd Tŷ'r Cyffredin ers 2010. Cafodd ei phenodi'n Fonesig Gadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (DBE) am ei gwasanaeth gwleidyddol.

Ganed Dawn yn Llundain a chafodd ei magu yn Crawley, Gorllewin Sussex. Dychwelodd i Lundain ym 1973 i weithio, ac ymunodd â'r Plaid Lafur yn ystod ei chyfnod yn gweithio fel ysgrifennydd cyfreithiol mewn Canolfan Gyfreithiol yn nwyrain Llundain.

Symudodd i Fryste ym 1974 a ganed ei mab, Luke, ym 1978. Astudiodd ar gyfer gradd BA (Anrhydedd) mewn gwyddorau cymdeithasol ym Mholytechnig Bryste fel myfyriwr aeddfed a rhiant sengl, ac yn dilyn hynny cyflawnodd waith ymchwil PhD ym maes menywod a thai.

Cafodd Dawn ei hethol am y tro cyntaf i Senedd y DU yn etholiad cyffredinol 1987 ac fe fu'n gwasanaethu yn y swyddi canlynol:

– 1992–1994: Llefarydd yr Wrthblaid ar gyfer lechyd

- 1994–1997: Llefarydd yr Wrthblaid ar gyfer y Trysorlys
- 1997–1999: Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys
- 1999–2007: Tâl-feistr Cyffredinol
- 2007–2009: Y Gweinidog Gwladol dros Iechyd y Cyhoedd
- 2009–2010: Y Gweinidog Gwladol dros Blant a Phobl Ifanc

Urddwyd Dawn yn Arglwyddes am Oes yn y Deyrnas Unedig ym mis Awst 2015.

Ronnie Alexander (Gorffennaf 2017 ymlaen)



Roedd Ronnie Alexander yn Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn Llywodraeth Cymru tan 2013, pan adawodd i fynd ar drywydd amrywiaeth o ddi-ddordebau eraill. Mae'n cael ei gyflogi ar hyn o bryd gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr fel Eiriolwr Defnyddwyr, a chan yr Asiantaeth Safonau Bwyd fel aelod o Bwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru sy'n benodiad gan y Gweinidog.

Yn ogystal, mae wedi cael ei benodi'n Gadeirydd Annibynnol Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac mae'n aelod o Fwrdd Gofal Hafod sy'n rhan o Gymdeithas Tai Hendre. Mae Gofal Hafod yn darparu gwasanaethau gofal a chymorth i fwy na 1000 o bobl yng Nghymru.

Roedd gyrfa Ronnie yn y gwasanaeth sifil yn rhychwantu dros 20 mlynedd gan ganolbwyntio'n benodol ar newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd. Cyn hynny, bu'n gweithio i nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon mewn meysydd fel gwasanaethau cymorth strategol a gorfodi. Mae ganddo hanes sylweddol o ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a gwleidyddion ar bob lefel i ddylanwadu ar bolisi.

Cadarnhaodd Comisiwn y Cynulliad benodiad Ronnie i'r Bwrdd ym mis Mehefin 2017. Cymerodd ei le ar y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2017.

Trevor Reaney



Penodwyd Trevor Reaney yn Glerc a Phrif Weithredwr Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Awst 2008 tan iddo ymddeol ym mis Mehefin 2016. Dechreuodd Trevor ei yrfa yn y diwydiant lletygarwch, ac mae wedi dal nifer o swyddi rheoli yn y sector preifat a chyhoeddus. Cyn ymuno â'r Cynulliad, bu Trevor yn gweithio fel Prif Weithredwr Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon o fis Ionawr 2004. Cyn hynny, roedd yn Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Craigavon, rhwng 1996 a 2003.

Mae Trevor yn aelod neu'n dal swydd gyda nifer o sefydliadau:

- Cymrawd yn y Sefydliad Rheoli
- Ymddiriedolwr a Dirprwy Gadeirydd Buttle UK (elusen plant)
- Ymddiriedolwr Tree Aid (elusen ddatblygu ryngwladol).

Michael Redhouse



Ar hyn o bryd, Michael Redhouse yw Pennaeth EMES Consulting, sef cwmni a sefydlodd yn 2002 sy'n helpu llawer o sefydliadau mawr gyda materion taliadau a buddion. Graddiodd Michael mewn mathemateg o'r Brifysgol Agored, ac mae ei yrfa wedi cynnwys cyfnodau fel Partner yn Ernst and Young a Chyfarwyddwr Polisi Cyflogaeth yn Diageo. Ar hyn o bryd, mae Michael yn gwasanaethu fel Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth APEX, sy'n cefnogi troseddwy'r sy'n dychwelyd i'r gwaith, ac mae'n Gadeirydd Ymddiriedolwyr Hosbis St Luke yn Harrow.

Mae Michael yn Aelod o'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB), sy'n edrych ar gyflogau, dyletswyddau proffesiynol ac amser gweithio athrawon ysgol yng Nghymru a Lloegr, ac sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Y Fonesig Jane Roberts



Mae gan y Fonesig Jane Roberts gefndir eang ym maes llywodraeth leol ac iechyd. Roedd Jane yn Arweinydd Cyngor Camden rhwng 2000 a 2005, gan wasanaethu fel cynghorydd am 16 mlynedd. Bu'n cadeirio Comisiwn y Cynghorwyr ar gyfer yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol rhwng 2007 a 2009, ac ar hyn o bryd mae'n gadeirydd y felin drafod, y Rhwydwaith Llywodraeth Leol newydd.

Mae Jane bellach yn Gymrawd Ymchwil mewn Arweinyddiaeth Gyhoeddus yn Ysgol Fusnes y Brifysgol Agored. Yn broffesiynol, mae Jane yn feddyg a than fis Mehefin 2016, bu'n gweithio fel ymgynghorydd ysbyty ym maes Seiciatreg Plant a'r Glasoed. Roedd yn Gyfarwyddwr Meddygol ac yna'n Gyfarwyddwr Ansawdd a Pherfformiad yn Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Islington.

Mae gan Jane ystod eang o brofiad anweithredol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn bennaf yn ymwneud ag iechyd, addysg, polisi cyhoeddus a moeseg. Roedd yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Ofsted rhwng 2006 a 2011 ac yn Gadeirydd Parenting UK rhwng 2006 a 2012. Mae'n aelod o gorff llywodraethu Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae Jane wedi ysgrifennu nifer o bapurau academiaidd a adolygwyd gan gymheiriaid ym maes pediatreg a seiciatreg, a hefyd mae wedi cyd-olygu'r llyfr "The Politics of Attachment" (1996) a hi hefyd yw awdur "Losing Political Office" (2017).

Atodiad B: Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd – 2017-18

Mae'r tabl isod yn dangos y costau uniongyrchol gan y Bwrdd Taliadau yn y flwyddyn ariannol 2017-18. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd pum cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd. Hefyd, cynhaliodd aelodau'r Bwrdd nifer o ddiwyddiadau ymgysylltu gydag Aelodau a staff cymorth i lywio ei adolygiad o'r cymorth staffio i Aelodau. Cafodd Ronnie Alexander gyfarfodydd cynefino hefyd. Mae'r tablau isod yn rhoi ffioedd a threuliau aelodau'r Bwrdd.

Ffioedd Aelodau'r Bwrdd (cyn treth)

	Y Fonesig Dawn Primarolo	Ronnie Alexander	Y Fonesig Jane Roberts	Trevor Reaney	Michael Redhouse	Cyfanswm
Cyfradd ddyddiol	£333.00	£267.00	£267.00	£267.00	£267.00	
Cyfradd Hanner Diwrnod	£166.50	£133.50	£133.50	£133.50	£133.50	
Cyfradd fesul awr	£44.40	£35.60	£35.60	£35.60	£35.60	
Ffioedd	£6,702.57	£5,051.37	£3,044.30	£2,886.18	£2,884.95	£20,569.37

Treuliau Aelodau'r Bwrdd

	Y Fonesig Dawn Primarolo	Ronnie Alexander	Y Fonesig Jane Roberts	Trevor Reaney	Michael Redhouse	Cyfanswm
Milltiroedd mewn car	£0.00	£85.05	£0.00	£203.40	£0.00	£288.45
Tacsi / llogi car	£173.95	£50.39	£45.24	£283.26	£27.56	£580.39
Teithiau awyr	£0.00	£0.00	£0.00	£860.73	£0.00	£860.73
Trên a Thiw	£286.25	£0.00	£305.13	£11.91	£369.35	£972.64
Tollau	£0.00	£0.00	£0.00	£6.70	£0.00	£6.70
Treuliau Eraill	£0.00	£0.00	£0.00	£244.90	£0.00	£244.90
Llety	£596.75	£0.00	£520.75	£656.00	£656.00	£2,429.50
Cynhaliath (arlwy)	£54.32	£59.47	£57.85	£74.22	£94.00	£339.86
Cyfanswm	£1,111.27	£194.91	£928.97	£2,341.12	£1,146.91	£5,723.17

Costau Ychwanegol

	Cyfanswm
Cyllidebau treuliau a chynhaliaeth - llogi car, milltiroedd y DU, Acco UK, T&T, Teithio arall	£59.87
Lletygarwch	£1,195.56
Ymchwil y Bwrdd Taliadau	£28,895.50
Cyfanswm	£30,150.93
Cyfanswm y gost	£35,874.10

Atodiad C: Prosiectau'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu 2017-18

Aelod Cynulliad	Teitl
Adam Price	Arfor: Adroddiad yn cynllunio rhaglen waith ar gyfer gweithio'n rhanbarthol rhwng awdurdodau Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn
Alun Davies	Gwasanaethau Bysiau ym Mlaenau Gwent
Andrew RT Davies	Hysbysebu ar Facebook
Bethan Jenkins	Taflenni gwybodaeth
Bethan Jenkins	Taflenni arolwg
Bethan Jenkins	Newid arwyddion y swyddfa i adlewyrchu newid enw
Bethan Jenkins	Newid arwyddion y swyddfa i adlewyrchu newid enw
Bethan Jenkins	Baner a stondin dros dro
Bethan Jenkins	Gwaith celf ar baner dros dro
Bethan Sayed	Hysbysebion ar gyfer ochr flaen y swyddfa
Bethan Sayed	Argraffu taflenni
Caroline Jones	Ymgysylltu â'r cyhoedd
Dai Lloyd	Baner a stondin dros dro
Dai Lloyd	Taflenni gwybodaeth
Dai Lloyd	Arolwg ar faterion pwysig i etholwyr
Dai Lloyd	Hysbysebion ar gyfer ochr flaen y swyddfa
Dai Lloyd	Argraffu taflenni
Darren Millar	Arolwg o Enwadau Pentecostaidd yng Nghymru
David Melding	Cyngor arbenigol ar y gwaith sy'n dod o'r grŵp cynghori gweinidogol ar ganlyniadau i blant
David Rees	Creu bwrdd hysbysebu a hysbysebu mewn rhaglen
David Rees	Hysbyseb cae pêl-droed
David Rowlands	Fideo lansio swyddfa
David Rowlands	Taflenni gwybodaeth
Dawn Bowden	Grŵp Trafod a Digwyddiad Trafod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Elin Jones	Adroddiad Blynyddol
Eluned Morgan	Deunydd hysbysebu
Gareth Bennett	Pôl Ehangu'r Cynulliad Cenedlaethol
Hannah Blythyn	Fideo Ddogfennol Blwyddyn Gyntaf Hannah
Hannah Blythyn	Sefydlu gwefan
Hefin David	Grŵp Trafod a Digwyddiad Trafod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Aelod Cynulliad	Teitl
Hefin David	Grŵp Trafod a Digwyddiad Trafod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Jack Sargeant	Sefydlu gwefan
Jane Hutt	Ymchwil i broblem hapchwarae yng Nghymru
Janet Finch-Saunders	Arolwg ar gyfer etholwyr
Jayne Bryant	Ymchwil i broblem hapchwarae yng Nghymru
John Griffiths	Hysbyseb gyda Rygbi Casnewydd
Julie James	Swyddi a phrentisiaeth yn deg
Julie Morgan	Ymchwil ar Strategaethau Cyfathrebu Effeithiol ynghylch: Deddfwriaeth yn Gwahardd Cosbi Plant yn Gorfforol
Ken Skates	Ymchwil i broblem hapchwarae yng Nghymru
Llyr Gruffydd	"Cyfle i Gymru" - sefydlu Banc Cyhoeddus yng Nghymru
Mark Drakeford	Adroddiad Blynyddol
Mark Drakeford	Dosbarthiad taflenni
Mick Antoniw	Ymchwil i broblem hapchwarae yng Nghymru
Mohammad Asghar	Diwrnod ym Mywyd Aelod Cynulliad
Neil Hamilton	Pôl Ehangu'r Cynulliad Cenedlaethol
Neil McEvoy	Diwrnod ym Mywyd Aelod Cynulliad
Neil McEvoy	Ymweliadau ag ysgolion lleol a helpu gyda digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Dynion
Neil McEvoy	Ymchwil y Gwasanaethau Plant
Paul Davies	Argraffu Taflen InTouch
Rhianon Passmore	Grŵp Trafod a Digwyddiad Trafod Bargen Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Rhianon Passmore	Arfer Gorau Rhyngwladol mewn Perfformiad Cerdd
Rhun ap Iorwerth	Adroddiad Blynyddol
Russell George	Adrodd yn ôl - cylchlythyr
Siân Gwenllïan	Tai i bobl leol
Simon Thomas	Datgarboneiddio hydrogen
Steffan Lewis	Cyfleoedd i adfywio Casnewydd
Suzy Davies	Llyfryn diogelwch beicio (ail-argraffu)
Suzy Davies	3x prosiect haf: 1 - Ymgyrch Beicio Diogel (Cyfathrebu) 2 - Ymgyrch Hyrwyddo'r Gymraeg (Cyfathrebu) 3 - Ymgyrch Hanes Cymru mewn Amgueddfeydd (Cyfathrebu)
Vikki Howells	Hyrwyddo Gweithgareddau Cyfryngau Cymdeithasol
Vikki Howells	Ffilmiau Drôn ar gyfer dadl fer